OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 219 (Cy.23)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *3 Chwefror 2004* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(6), 12(2), 14(1)(d), 15(3), 16(1) a (3), 22(1), (2)(a) i (d), ac (f) i (j), (5)(a) a (7)(a) i (h) a (j), 25, 35 a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n barnu eu bod yn briodol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau'n arferadwy gan y Gweinidog priodol, sy'n cael ei ddiffinio yn adran 121(1), mewn perthynas â Chymru, fel y Cynulliad, ac mewn perthynas â Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel yr Ysgrifennydd Gwladol. Diffinnir ystyr "prescribed" a "regulations" yn adran 121(1) o'r Ddeddf; diffinnir "the Assembly" yn adran 5(b) o'r Ddeddf.

(**2**) *Gweler* adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ar gyfer y gofyniad i ymgynghori.